Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Tremeirchion

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Tremeirchion yn gymuned hapus a chyfeillgar sy'n canolbwyntio'n gadarn ar les a datblygiad disgyblion a staff. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir i sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu difyr mewn amgylchedd dysgu gofalgar a chynhwysol. Mae ymagwedd y pennaeth at feithrin agweddau dysgu cadarnhaol ac ymddygiad rhagorol pob disgybl yn gryfder. Mae'r weledigaeth synhwyrol hon, sy'n cynnwys cyfraniadau o'r gymuned ehangach, yn cefnogi arferion gwella'r ysgol yn llwyddiannus.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n ddeallus i sicrhau darpariaeth fuddiol. Maent yn dîm o staff cydwybodol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu deilliannau disgyblion yn fwriadus. Maent yn cydweithio'n ddiwyd â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion disgyblion yn dda.

Ar y cyfan, mae rhediad y sesiynau addysgu yn addas i ddysgu disgyblion ac mae adborth athrawon i ddisgyblion wella'u dysgu yn briodol. Fodd bynnag, nid oes cysondeb yn arferion effeithiol athrawon wrth herio dysgu'r disgyblion. Ar adegau, mae tueddiad gan staff i or-arwain sy'n cyfyngu ar allu disgyblion i ddysgu'n annibynnol a gwneud dewisiadau uniongyrchol am eu dysgu.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau'n adeiladol ac yn raddol mewn gweithgareddau dysgu a thros gyfnod. Mae hyn yn arwain at gynnydd effeithiol ym medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion. Mae staff yn fodelau iaith cywrain ac maent yn hyrwyddo medrau llafar Cymraeg disgyblion yn llwyddiannus. Mae medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n dda, ac erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, maent yn gyfathrebwyr hyderus yn y ddwy iaith.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith teyrngar. Mae staff yn annog disgyblion i gydweithio, rhannu syniadau a chofleidio'u hapusrwydd yn frwd, sy'n datblygu eu parch at deimladau pobl eraill yn ddeallus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol effeithiol, sy'n creu ymwybyddiaeth gadarn o'u cynefin a gwerthfawrogiad diwylliannol cryf.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau arferion addysgu effeithiol a chyson, gan gynnwys darparu adborth bwriadus i herio’r holl ddisgyblion

A2 Darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i ddysgu a chyflwyno eu gwaith

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2025